

Cofrestr yr NMC

1 Ebrill 2025 –
31 Mawrth 2026



Mae data o Gofrestr NMC yn rhoi'r darlun pendant o'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU.

Mae'r **arolwg cysylltiedig o'r rhai sy'n gadael** yn ychwanegu cipolwg pwysig ar pam mae pobl wedi gadael y Gofrestr.

Y darlun mawr

Mae nifer y nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio'r NMC¹ ar gofrestr NMC wedi cyrraedd uchafbwynt o **867,935**. Mae hynny **14,228 yn fwy** na'r un adeg y llynedd ac mae'n cynrychioli tua 2.5% o boblogaeth weithio'r DU².

Mae'r twf hwn yn dangos bod mwy o bobl yn ymuno â'r Gofrestr (**41,542**) nag sy'n gadael (**30,323**).

Fodd bynnag, **mae cyfradd twf y Gofrestr bron wedi haneru** – rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026 tyfodd y Gofrestr dim ond **1.7%** o'i gymharu â **3.3%** rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.

Mae hyn yn bennaf oherwydd bod llai o weithwyr proffesiynol addysgedig yn rhyngwladol yn ymuno â'r Gofrestr. Yn 2025-26, roedd **26.4%** o'r rhai newydd a ymunodd â'r Gofrestr wedi cael addysg ryngwladol, o'i gymharu â **39.1%** y flwyddyn flaenorol ac uchafbwynt o **49.4%** yn 2023-24.

Gostyngodd nifer y gweithwyr proffesiynol addysgedig yn y DU a ymunodd â'r Gofrestr hefyd **4.9%** o'i gymharu â'r un amser y llynedd, gan gyfrannu at y twf arafach.

Byddwn yn monitro'r pwynt data hwn yn agos i weld a yw'n arwydd cyntaf o duedd newydd a phryderus.

Nifer uchaf erioed o

867,935

o Weithwyr proffesiynol cofrestredig

Cynnydd o

14,228

ers y llynedd o

+1.7%

Ym mis Mawrth 2026, o'i gymharu â mis Mawrth 2025



+1.4%

Nyrsys

799,001



+4.2%

Bydwragedd

48,545



-1.5%

Cofrestrwyr deuol

6,151



+11.4%

Cymdeithion nyrsio

14,238

¹ Cyflwynwyd rôl y cydymaith nyrsio yn 2019. Dim ond yn Lloegr y gall cymdeithion nyrsio ymarfer yn y rôl hon yn Lloegr.

² Yn seiliedig ar **ddata marchnad lafur y Swyddfa Ystadegau Gwladol** ar gyfer Ionawr 2026 i Fawrth 2026 (a ryddhawyd ar 18 Mehefin 2026)

Cofrestr sy'n fwy amrywiol nag erioed

Am y tro cyntaf, mae **mwyafrif** o weithwyr proffesiynol cofrestredig o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (**33.8%** ar 31 Mawrth 2026 o'i gymharu â **32.5%** ar 31 Mawrth 2025).

Mae hynny er gwaethaf arafu yn nifer y gweithwyr proffesiynol a addysgwyd y tu allan i'r DU sy'n ymuno â'r Gofrestr.

Mae hyn yn rhannol oherwydd bod ymunwyr a addysgwyd yn y DU yn dod yn fwy amrywiol yn ethnig yn raddol - mae nifer yr ymunwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ym mis Mawrth 2026 yn **35%**, cynnydd o **12.7 pwynt canran** ers y 12 mis hyd at fis Mawrth 2021 (**22.3%**).

Er bod y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth yn gynyddol amrywiol, mae nyrsys, bydwreded a chymdeithion nyrsio yn profi hiliaeth a gwahaniaethu annerbyniol wrth ddarparu gofal. Adroddodd **Spotlight**, adroddiad mewnwelediad blynyddol 2025 y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, fod **40%** o weithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth a ymatebodd i'n harolwg gweithwyr proffesiynol blynyddol wedi dweud eu bod wedi profi gwahaniaethu yn y flwyddyn flaenorol, yn amlaf ar sail ethnigrwydd neu oedran. Mae hyn yn ddinistriol i'r unigolion hynny ac mae'n effeithio ar brofiad ac ansawdd gofal.

Mae'n ddyletswydd ar bawb sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal i wynebu hiliaeth a gwahaniaethu. Cyhoeddwyd **egwyddorion i gefnogi gwrth-hilioldeb mewn addysg ac ymarfer bydwreigiaeth a nyrsio** oherwydd bod gan ein proffesiynau hawl i ddysgu a gweithio mewn amgylcheddau sy'n cefnogi cyfiawnder a thegwch. Bwriedir iddynt ysgogi newid gwirioneddol cyn ein hymgyngghoriad ar ddiwygiadau i'r Cod a fydd yn cynnwys cynigion i gryfhau'r disgwyliad y bydd cofrestreion yn cydnabod, yn herio ac yn tarfu ar hiliaeth.

Rhaniad rhywedd y Gofrestr, ym mis Mawrth 2026

75.6%

UK educated

24.4%

internationally educated

Gender split of the Register

Arall neu hunan-ddisgrifio
0.1%

Gwell gen i beidio â dweud
1.4%

Dyn

10.9%

87.6%

Menyw



Golwg agosach ar yr arafu mewn twf

Dros y flwyddyn ddiwethaf, ymunodd **10,961** o weithwyr proffesiynol a addysgwyd y tu allan i'r DU â Chofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth am y tro cyntaf. Mae hynny'n **9,708 (47%) yn llai** na'r flwyddyn flaenorol (**20,669** ym mis Mawrth 2025).

Yn yr un cyfnod, ymunodd **30,581** o weithwyr proffesiynol a addysgwyd yn y DU â'r Gofrestr – mae hyn **4.9% yn llai** na'r **32,164** a ymunodd y flwyddyn flaenorol. Mae'r cwmp hwn yn dilyn yr arafwch a welwyd yn 2024-25 lle cynyddodd nifer yr ymunodd newydd a addysgwyd yn y DU **5.9%** yn unig, o'i gymharu ag **11.9%** yn ystod 2023-24.

Ar yr un pryd, cynyddodd cyfanswm y rhai a adawodd, ond mae'n parhau'n fras gyson fel cyfran o'r Gofrestr (**3.6%**). Roedd **25,094** o'r rhai a adawodd wedi'u haddysgu yn y DU – mae hynny 6.7% yn fwy nag ym mis Mawrth 2025 (**23,513**) ac roedd **5,229** wedi'u haddysgu'n rhyngwladol – **0.9%** yn llai nag ym mis Mawrth 2025 (**5,276**).

Mae hyn yn golygu bod y bwlch cyffredinol rhwng nifer y bobl sy'n ymuno â'r Gofrestr ac yn ei gadael wedi culhau, fodd bynnag mae nifer y gweithwyr proffesiynol ar y Gofrestr wedi cynyddu o hyd.


Mae patrymau ymuno rhyngwladol yn newid

India yw'r ffynhonnell fwyaf o ymunowyr rhyngwladol o hyd, gyda **4,215** o ymunwyr yn 2025-26 ond mae hwn yn ostyngiad o **54.4%** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (**9,249**). Nigeria yw'r ail ffynhonnell fwyaf, gyda 1,614 o ymunwyr – gostyngiad o 31.7% (**2,363**).


Am y tro cyntaf ers 2015-16, nid oedd y Philipinau yn un o'r tair ffynhonnell uchaf o ymunowyr rhyngwladol – Ghana yw'r drydedd ffynhonnell ryngwladol fwyaf bellach, gyda **1,391** o ymunwyr yn 2025-26, gostyngiad o **22.0%** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (**1,783**).

Mae hyn yn golygu bod dwy o'r ffynonellau mwyaf o ymuno rhyngwladol - Nigeria a Ghana - yn wledydd 'rhestr goch'. Mae recriwtio gweithredol o'r gwledydd hyn wedi'i wahardd gan y **codau ymarfer** perthnasol sy'n cynnal safonau moesegol ar recriwtio ac yn cefnogi

Yn ystod y 12 mis o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024-25



Cyfanswm nifer y gweithwyr proffesiynol ar 31 Mawrth 2026



Gwledydd yr ydym yn derbyn y niferoedd uchaf o ymnowyr newydd sydd wedi'u haddysgu'n rhyngwladol ohonynt (% o ymunwyr)

- 1 India**
4,215 (19.8%)
- 2 Nigeria**
1,614 (7.6%)
- 3 Ghana**
1,391 (6.5%)

tegwch iechyd byd-eang. Serch hynny, mae nyrsys, bydwagedd a chymdeithion nyrsio yn rhydd i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch ble i ymarfer. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad pob cofrestrai sydd wedi'i addysgu'n rhyngwladol.

Cyfraddau twf gwahanol yn ôl proffesiwn

Mae twf yn nifer y **bydwagedd** ar y Gofrestr yn gryfach na thwf cyffredinol y Gofrestr sef **4.2%**, er ei fod i lawr o **5.6%** yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r twf arafach yn cael ei yrru gan ostyngiad o **10.8%** yn nifer y bydwagedd newydd a ymunodd (**3,304** yn 2026 o'i gymharu â **3,704** yn 2025).

Cododd nifer y **nyrsys** cofrestredig **1.4% yn unig** dros y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd llai o nyrsys newydd yn ymuno yn y flwyddyn hyd at Fawrth 2026 nag yn ystod y flwyddyn flaenorol (**34,562** o'i gymharu â **45,597**).

Yn yr un cyfnod, mae nifer y cymdeithion nyrsio newydd a ymunodd, sydd wedi gallu ymarfer yn Lloegr ers 2019, wedi **cynyddu** (**3,674** yn 2026 o'i gymharu â **3,532** yn 2025). Mae **14,238** o **gymdeithion nyrsio** ar y Gofrestr bellach, o'i gymharu â **12,782** ym mis Mawrth 2025.


Mae meysydd ymarfer iechyd meddwl a nyrsio plant yn tyfu'n gyflymach na'r Gofrestr gyfan, ond mae nyrsio oedolion yn tyfu'n arafach. Mae'r rhan fwyaf o nyrsys sydd wedi'u haddysgu'n rhyngwladol yn ymuno fel nyrsys oedolion felly mae'n bosibl bod y gostyngiad yn nifer yr ymunwyr rhyngwladol yn cael effaith. Yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2025, bu cynnydd bach yn nifer y nyrsys anabledau dysgu (**+0.9%**) ond yn yr un cyfnod eleni gostyngodd y nifer (**-0.4%**).

Pam mae pobl yn gadael y Gofrestr

Gadawodd cyfanswm o **30,323** o bobl Gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn y flwyddyn hyd at Fawrth 2026 – cynnydd o **5.3%** o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (**28,789**).

Mae ymatebion i'n **arolwg ymadawyr blynyddol** yn dangos bod y tri phrif reswm dros adael wedi bod yn gyson dros amser (ymddeoliad, iechyd corfforol neu feddyliol a llosgi allan neu orflinder) a phob blwyddyn mae'r gyfran sy'n gadael i ymddeol wedi cynyddu 2-3%.

Ym mis Mawrth 2026, o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd mae



Yn y 12 mis hyd at fis Mawrth 2026

Cafodd
5,229
o adawyr eu
haddysgu'n
rhyngwladol



Addysgwyd
25,094
o'r rhai a
ymadawodd
yn y DU



Rhannu mewnwelediadau i gefnogi'r sector

Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn dangos gweithlu sy'n fwy ac yn fwy amrywiol nag erioed, ond un lle mae twf yn arafu a lle na ellir cymryd cyflenwad yn ganiataol yn y dyfodol.

Rydym yn gobeithio y bydd y trosolwg hwn, ochr yn ochr â'n **tablau data** cynhwysfawr, yn cefnogi polisi, cynllunio ac ymchwil y gweithlu yn y DU, gan sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol o wasanaethau y mae pobl a chymunedau ledled y wlad yn dibynnu arnynt ar gyfer eu hiechyd a'u lles.


Os oes gennych gwestiynau am ein data neu syniadau ar sut y gallem wella defnyddioldeb yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni drwy research@nmc-uk.org.



Emma Westcott

Cyfarwyddwr Gweithredol
Strategaeth a Mewnwelediad

Hyd yr amser
ers y cofrestriad
cychwynnol – pob
proffesiwn (newid yn
y 12 mis diwethaf)³



³ Nid yw hyd yr amser ers y cofrestriad cyntaf o reidrwydd yn golygu cofrestru di-dor neu barhaus. Mae llawer o gofrestreion yn gadael y Gofrestr am amrywiaeth o resymau, am un cyfnod neu fwy yn ystod eu gyrfaeodd.

Ni ddylem anghofio bod gweithwyr proffesiynol ymroddedig y tu ôl i'n data sy'n darparu gofal diogel ac effeithiol i bobl bob dydd. Rydym yn ddiolchgar am bopeth maen nhw'n ei wneud i'r bobl a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.



Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel ac effeithiol ar draws pedair gwlad y DU – wedi'i reoleiddio a'i gefnogi gan yr NMC – sefydliad sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gyda thegwch a chyfiawnder wrth wraidd popeth a wnawn.

Ein rôl yw **amddiffyn y cyhoedd a chynnal hyder** yn y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth. Fel y rheoleiddiwr annibynnol mwyaf yn Ewrop o fwy na 860,000 o weithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth, mae gennym rôl hanfodol wrth wireddu hyn.

Rydym yn gwneud hyn trwy **osod a hyrwyddo safonau addysg a phroffesiynol uchel** ar gyfer pob nyrs a bydwraig yn y dyfodol a chofrestredig yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Rydym hefyd yn sicrhau bod pob nyrs, bydwraig a chymdeithion nyrsio ar ein Cofrestr yn bodloni **safonau ymddygiad ac ymarfer clir** sy'n amddiffyn y cyhoedd ac enw da ein proffesiynau.

Mae gennym ddyletswydd i **ymchwilio i bryderon** a chymryd camau i **amddiffyn y cyhoedd** yn yr achosion cymharol brin lle mae angen i ni gyfyngu ar hawl nyrs, bydwraig neu gydymaith nyrsio i ymarfer.

Rydym yn adeiladu NMC newydd gyda gonestrwydd, tegwch, parch, ecwiti ac effeithiolrwydd wrth ei wraidd.

Rydym yn benderfynol o **wella a moderneiddio ein diwylliant a'n ffyrdd o weithio**. Bydd hyn yn sicrhau bod y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn teimlo'n hyderus yn ein gwaith.

23 Portland Place, London W1B 1PZ

+44 20 7637 7181 www.nmc.org.uk

 @nmcuk  @nmcnews

 The Nursing and Midwifery Council

nmc
Cyngor
Nyrsio a
Bydwreigiaeth